



Registered Charity Number: 1189761

Ë bost: [seassailability@yahoo.com](mailto:seassailability@yahoo.com)

[www.seasailability.org.uk](http://www.seasailability.org.uk)

Cyfeiriad cofrestredig:

16 Overlea Cilgant

Deganwy Conwy

LL31 9TB

Ffôn: 07450257555

## Polisi Amgylcheddol SEAS

Mae'r polisi hwn yn ychwanegol i Bolisi Amgylcheddol Canolfan Conwy a'r arferion sy'n ddiogel o ran yr amgylchedd, polisiau a gweithdrefnau Canolfan Conwy.

Os bydd SEAS yn gweithredu mewn lleoliadau heblaw am Ganolfan Conwy, cedwir at bolisiau a gweithdrefnau amgylcheddol yn ymwneud â'r lleoliadau hynny.

Mae SEAS wedi ymrwymo i leihau effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd. Mae'r Polisi Amgylcheddol hwn o'r pwys mwyaf oherwydd gweithgareddau SEAS ar y Fenai, a'r AONB a SSSlau penodol yr ardal. Mae risgiau ychwanegol i'r amgylchedd yn gysylltiedig â hyn, sy'n golygu bod mesurau lliniaru a gofal ychwanegol yn cael eu cymryd.

Er mwyn cyflawni'r nod o leihau'r effaith ar yr amgylchedd, mae'r polisi hwn yn amlinellu cyfres o ddatganiadau gweithredu i gyfranogwyr a gwirfoddolwyr SEAS eu dilyn.

### Ymwybyddiaeth

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith cyfranogwyr a gwirfoddolwyr o ran y ffyrdd y gellir niweidio'r amgylchedd a dulliau ymarferol o'u hatal. Byddwn yn rheoli ein gweithgareddau i annog bywyd gwyllt lle bo hynny'n ymarferol.

### Llygredd

Byddwn yn sicrhau bod cychod diogelwch / modur yn cael tanwydd yn ddiogel ac yn gyfrifol i osgoi gorlifoedd a llygredd. Bydd pob gwirfoddolwr yn cael ei hyfforddi mewn arfer da o ran ail-lenwi â thanwydd a defnyddio pecynnau gollwng.

Cymerir gofal ychwanegol i reoli adnoddau sy'n dod o dan reoliadau COSHH (Rheoli Sylweddau sy'n Niweidiol i Iechyd) i sicrhau eu bod yn cael eu storio i ddileu digwyddiadau o lygru.

### Bioamrywiaeth

Rydym yn mynnu bod pawb yn lleihau'r risg o ddod â rhywogaethau anfrodorol ymledol i'r Fenai drwy olchi unrhyw git ac offer a defnyddir mewn mannau eraill cyn eu defnyddio yn ystod gweithgareddau SEAS.

## Ynni

Byddwn yn lleihau'r defnydd o drydan ym mhob un o'n gweithgareddau – er enghraifft drwy ddiffodd goleuadau.

## Defnyddio Dŵr

Byddwn yn lleihau'r defnydd o ddŵr ym mhob un o'n gweithgareddau – drwy ddefnyddio blaenau sbardun ar bibellau a thapiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

## Llywodraethu

Lle bo'n bosibl, byddwn yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol, yn hytrach na deunyddiau argraffedig i gyfathrebu a hyrwyddo ein gweithgareddau.

Byddwn yn ymdrechu i gymryd dull cynaliadwy at weithgareddau yn SEAS, gan ddefnyddio arfer amgylcheddol ac arweiniad gorau lle maent ar gael.

Byddwn yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol a moesegol wrth brynu offer lle bo'n bosibl.

Byddwn yn cyhoeddi ein hymrwymiad amgylcheddol ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd ymysg ein cyfranogwyr a'n gwirfoddolwyr.

*Perchennog Dogfen:* [SEAS](#)

*Cymeradwywyd y ddogfen gan:*

[Ymddiriedolwyr SEAS](#)

*Dyddiad cymeradwyo'r Polisi:* [Gorff 2021](#)

*Dyddiad adolygiad nesaf:* [Gorff 2024](#)